

Trafodaeth gyda Grŵp Cynefin are eu polisi gosod tai

Mynychodd tri o swyddogion Grŵp Cynefin, er mwyn egluro eu polisi gosod tai. Bu i Gyngor Cymuned Y Bontnewydd fynegi pryder fod pobl o'r tu allan i'r ardal yn cael blaenoriaeth, a'r pryder oedd y byddai hynny'n wir yng nghyd-destun y tai a fflatiau y bydd Cynefin yn gyfrifol amdanynt yn natblygiad Cefnwerthyd.

Eglurwyd mai cychwynnol oedd trafodaethau gyda'r datblygwr Watkin Jones, ond y bwriad oedd gweithio yng nghyd-destun polisi gosod tai Cyngor Gwynedd, sydd wrthi'n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd ac sy'n rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol. Mae'r hen system bwyntiau yn cael ei ddiwygio i system fandiio.

Mae'n debyg y bydd y fflatiau yng Nghefnwerthyd yn rhai cymdeithasol, a'r tai tair stafell wely yn rhai fforddiadwy.

Mae cynllun Tai Teg yn egluro'n fanwl yr hyn sy'n bosibl i'r rheini sydd am brynu tŷ fforddiadwy.

Gobeithir y bydd Cynefin yn ymweld â chymuned Bontnewydd tua mis Hydref 2019 pan y bydd mwy o fnaylion parthed datblygiad Cefnwerthyd ar gael.

PRESENNOL:

Cynghorwyr: Math Williams, Peter Garlick, Mirian Llwyd Owen, Erddyn Davies

Cadeirio: Geraint Strello

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Wynn Roberts

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION MIS MAI 2019

Cynnig: Math Williams

Eilio: Mirain Llwyd Owen

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Mae cyfarfod yn cael ei drefnu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc, ar Mehefin 26.

Penderfynwyd sefydlu is-grŵp fyddai'n goruchwylio'r Clwb Ieuenctid unwaith iddo gael ei sefydlu.

Deallir fod Cyngor Gwynedd wrthi'n hysbysebu dwy swydd ar gyfer Clwb Ieuenctid ym Montnewydd, i ddechrau o Fedi 2019.

Bu Rhingyll o Heddlu Gogledd Cymru mewn cysylltiad â'r Clerc, ac eglurodd nad yr Heddlu oedd wedi rhwystro'r ddau heddwes a benodwyd i reoli'r Clwb rhag cymryd rhan. Yn hytrach, bu'r ddau ar gwrs gweithwyr ieuenctid, oedd yn argymhell na ddylai gweithwyr ieuenctid ymyrryd pan fo aelodau o glwb ieuenctid yn troseddu. Gan fod hyn yn groes i egwyddorion craidd yr Heddlu, penderfynodd y ddau na allent fod â chyfrifoldeb dros y Clwb Ieuenctid.

4.2 Cerrig Afon Gwyrfai a Llifogydd Bontnewydd

Mae Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn fodlon efo cyflwr y ffordd sy'n rhedeg wrth ochr afon Gwyrfai, rhwng Bontnewydd a Llanfaglan.

Byddant yn archwilio'r ffordd o dro i dro, a hyd yn hyn does dim problem. Mae yna sylfaen gerrig o dan y lôn, ac fe gytunwyd nad oedd hi'n bosibl nac yn addas gwneud dim ar hyn o bryd.

Bydd y Cynghorydd Geraint Strello yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Gwyrfai o hyn ymlaen, ac yn ymdrechu i ddarganfod pryd y bydd y wal i rwystro llifogydd ym Montnewydd yn cael ei hadeiladu.

4.3 Cyfethol Aelod

Does neb wedi mynegi diddordeb am y sedd wag gyntaf. O ran yr ail sedd wag, yna mae'n rhaid disgwyl tan 17 Mehefin pryd y bydd yr amser y gall aelodau'r cyhoedd ofyn am etholiad ddod i ben. Os na fydd cais am etholiad, gellir hysbysebu'r ail sedd wag.

4.4 Stribedi Coch Llanfaglan

Mae Cyngor Gwynedd yn fodlon gosod stribedi coch yn Llanfaglan, cyn belled nad oes effaith swm, a bod arian yn y gyllideb.

Trafodwyd y posibilrwydd o osod arwyddion cyfyngu cyflymder dros dro ar yr holl ffordd o Gaernarfon i Landwrog yn ystod cyfnod adeiladu'r ffordd osgoi, gan y bydd cynnydd yn y traffig sy'n defnyddio'r ffordd yn ystod y cyfnod hwnnw. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd os y byddai hyn yn bosibl.

Awgrymwyd hefyd y dylid gofyn i'r fan Gan Bwyll fynychu Llanfaglan yn amlach. Mae dadl y bydd cynnydd yn y traffig wrth i'r ffordd osgoi gael ei hadeiladu, ac weithiau mae'r fan wedi ei lleoli ym Montnewydd ar adegau o'r dydd pan nad yw'r traffig yn medru symud yn gynt na 30 milltir yr awr.

4.5 Clytio Lôn Fferm Glanrafon o Rhos Bach a Lôn Groes i Tyddyn Parthle

Bu'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad efo Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y materion yma.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i glytio'n barhaol Lôn Groes yn ystod y flwyddyn ariannol hon,

Bwriedir clytio Lôn Glanrafon rywbryd yn y dyfodol, ond does dim dyddiad pendant ar hyn o bryd.

Yn ogystal, bydd contractwr yn cael ei benodi i ail wneud y darn anwastad o ffordd sy'n arwain at yr hen safle ail gylchu ym Montnewydd.

4.6 GWEFAN

Mae Un Llais Cymru yn cynnal cwrs ar wefannau ac ymgysylltu cymunedol. Bwriada'r Clerc fynychu'r cwrs pan fydd yn cael ei gynnal nesaf.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Mai 2019

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £279.00

Cyfanswm Net £232.20

5.2 Costau Postio Clerc £6.10

5.3 Derbyn Ffurflen Flynyddol 2017/18

5.4 Balans yn y Banc 1 MEHEFIN 2019 - £17,705.09

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio c19/0453/19/LL, Maes Parcio Cartref Bontnewydd i newid defnydd tir o ddefnydd amaethyddol i faes parcio - dim gwrthwynebiad

Cais cynllunio C19/0475/19/LL, codi estyniad deulawr i gefn 10 Teras Digbeth – dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am roddion gan:-

- Lleu
- Canolfan Bro Llanwnda
- Cof y Cwmwd
- Cymdeithas Lenyddol Bontnewydd
- Hwyl y Bont
- Clwb Pêl-droed Bontnewydd

8. MATERION ERAILL

8.1 Codi Tâl am Barcio yn Ninas Dinlle

Cafwyd llythyr gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn gofyn am gefnogaeth i'w hymdrech i wrthwynebu codi tâl am barcio yn Ninas Dinlle.

Penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion am y mateiron canlynol cyn dod i benderyfniad:-

- faint fydd y tâl parcio
- hyd y tymor codi tâl parcio
- ble yn union yn Ninas Dinlle fydd y tâl parcio yn weithredol

8.2 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cafwyd diweddariad gan gynrychiolydd Jones Bros ar y ffordd osgoi. Mae gwaith cychwynnol wedi ei wneud o glirio coed a gosod mynedfeydd i offer trwm i amrywiol safleodd ar hyd llwybr y ffordd.

Cafwyd darganfyddiadau archaeolegol ger Moro Goro ac ym Methel. Nid yw'r rhain yn debygol o achosi oedi yn y gwaith.

Bydd pont yn cael ei hadeiladu dros yr A487 rhwng Bontnewydd a Chernarfon gan olygu cau'r ffordd dros nos cyn bo hir.

8.3 Cytundeb Tir tu cefn i Barc Y Plwyf, Llanfaglan

Cytunwyd gosod y tir am gytundeb pum mlynedd o Awst 2019 i'r tenant presennol am rent o £25.00 y flwyddyn.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4 Gorffennaf 2019 am 7 yr hwyr yn Y
Ganolfan, Bontnewydd**